Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol li. MEDI, 1951 Rhif 9.

Mr. D. T. Williams.

(Llywydd y Gymdeithas Gymraeg am eleni).

[*Trwy garedigrwydd yr "Aberdare Leader"*]

Cyflwynodd Mrs. Park-Davies ein llywydd newydd i ni gydag urddas, a dyma'r man gorau efallai i bwysleisio pwysigrwydd y swydd a'r pwysigrwydd o'i chyflwyno o un llaw i'r llall gyda graen. Yn y gorffennol, ofnaf i ni fod yn esgeulus yn hyn o beth, a hynny oblegid ein tuedd naturiol i osgoi seremoni a rhwysg. Ond os yw ein crefydd yn rhydd ni raid iddi fod yn ddi-urddas a di-drefn ac am hynny gobeithiaf y gwêl ein pwyllgor yn dda i

fabwysiadu cynllun a geiriau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd gan Mrs. Park-Davies yn ei chyflwyno eleni. Gobeithiaf hefyd y byddwn yn parchu ein llywydd yn ystod y flwyddyn—nid fel person yn unig—ond fel swyddog o bwys a simbol o'n unoliaeth. Ysgwn i a oes neb fel nyni sy'n ethol llywydd, ac i bob pwrpas yn ei anghofio hyd oni ddelo amser i ethol un arall yn ei le. Nid wyf am roi medal am ei wddf a chlogyn a ffwr ar ei gefn yn null y Saeson, ond sicrhaer iddo le blaenllaw yng ngweithrediadau'r flwyddyn enwadol. Y mae Mr. D. T. Williams yn ŵr a all dderbyn y baich a'i gario yn ddi-drafferth. Gŵr yw sy'n gynefin a beichiau o bob math, un o hen stoc gadarn Ty'nrhewl a Chaeronnen, a gŵr a enillodd ei le yng nghwm Aberdâr erbyn hyn. Ymddiddorodd yn helaeth yn niwylliant y Cwm, ac er mai dyn dwad ydyw ef yn ddiamau yw prif biler yr Hen Dŷ Cwrdd bellach. Y mae'n bregethwr a llenor a gŵr busnes llygatgraff—a fu'r fath gyfuniad erioed at ein gwasanaeth o'r blaen. Ef a drefnodd y Cyfarfodydd Dathlu Dau Can Mlwyddiant gyda'r fath drylwyredd y dydd o'r blaen. Y mae'n flaenllaw gydag Eisteddfod y Plant ac Eisteddfod yr Henoed, ac am flynyddoedd lawer ef oedd sbogen fawr y Theatr Fach. Gofalodd am arian Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar ; gofalodd am fuddiannau Cymdeithas Ceredigion, Aberdâr o'i chychwyn, ac na anghofier ei fod yn gofalu am un o siopau mwyaf Aberdâr os nad De Cymru. Eithr ni anghofiodd y gynulleidfa fechan yn yr Hen Dŷ Cwrdd, a cherddodd ym mhob man yn deilwng o draddodiadau'r gwroniaid gynt. Rhwydd hynt iddo yn ei swydd newydd a bydded iddo ein tywys ar hyd llwybrau gweithgarwch mawr yn ystod ei dymor.

Yn ol ac ymlaen.

Gan Mrs. H. Park-Davies, Y.H.

[*Anerchiad Llywydd y Gymdeithas yn y Cyrddau Blynyddol*].

Am ychydig o amser ar ddiwedd fy nhymor fel Llywydd y Gymdeithas carwn siarad ar y testun "Yn ôl ac ymlaen." Y mae'r geiriau a barodd i mi feddwl am *yn ôl* i'w gweled yn Ioan 20.14, "A Mair a droes drach ei chefn ac a welodd yr Iesu yn sefyll, ac nis gwyddai hi mai yr Iesu oedd efe." A'r geiriau a ddaeth i'm cof wrth wneud ymdrech i edrych ymlaen yw'r rhai hynny a welir yn llyfr y Pregethwr, 7.10 : "Na ddywed, ' Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn,' canys nid o ddoethineb yr wyt yn ymofyn am y pethau hyn."

"*A Mair a droes drach ei chefn*".

Wrth edrych yn ôl teimlaf hiraeth dwys o golli nifer fawr o'n hen ffyddloniaid yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Ni allaf enwi pob un ohonynt, ond yn eu mysg yr oedd aelod o'r Pwyllgor, sef Dr. D. J. Davies, Aberystwyth ; dyn da, gwybodus, gwrol a chydwybodol. Yna'r hybarch David Evans, Cwmiago ; gŵr annwyl a berchid gan bawb. Collasom eu cynorthwy teyrngar a'u cynghorion call a charedig. Ac yn awr yr ydym wedi colli un arall o'r cedyrn Undodaidd ym mherson hoff weinidog eglwysi Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, y Parch. E. O. Jenkins. Y mae ei le yn wag iawn yma heddiw, ond credaf ei fod gyda ni yn yr ysbryd ac y mae'r diwrnod a'r achlysur yn ein galw, bob un ohonom, i Gwrdd *Coffa* a *Gweddi*. *Coffa* am ddyn caredig, gweinidog ffyddlon, un a gynorthwyai ei gymydog, un a garai ei enwad, un a oedd yn annwyl iawn gan aelodau ei eglwysi a chan bobl ei ardal, un a fu byw bywyd cyfoethog a llawn o wasanaeth.

Y mae galw am *Weddi* o ddiolchgarwch am ei waith didwyll a bendith Duw a fo arno ef ac arnom ninnau.

"A Mair a droes drach ei chefn ac a welodd yr Iesu yn sefyll, ac nis gwyddai mai yr Iesu yr oedd efe."

Efallai fod rhai ohonom ni yn teimlo heddiw fel Mair gynt, ein bod yn ddi-ymgeledd iawn heb rai o'n harweinwyr. Yr oedd hi'n teimlo ei bod wedi colli'r cyfan, bron, ar ôl y croeshoeliad. Yr oedd yr Iesu wedi dangos iddi sut i fyw bywyd gwell ; yr oedd wedi adfer ei hunan barch a.hithau bellach yn greadur newydd o dan arweiniad ei ysbryd. Ond yn awr . . . "Nis gwyddai mai yr Iesu yr oedd efe !" Anghofiodd am foment y byddai ei ysbryd ef yn ei chynnal o hyd—os dymunai hi hynny. Ac y mae yn rhaid i ninnau gredu hynny ar ddechrau'r flwyddyn newydd yma yn hanes y Gymdeithas. Rhaid i ni gryfhau ein ffydd a pheidio a digalonni. "Nac ofna braidd bychan, canys rhyngodd bodd eich Tad roddi chwi deyrnas." Ac fel y canodd Gwilym Marles adeg y Troad Allan,—

"Aiff heibio heddiw dywyll
Mae hyfryd wawr gerllaw,
I berchen glân gydwybod
Un arswyd byth ni ddaw.
A leddir ? byth nis lleddir
Ag arfau trais y dydd—
Yr unig angau i'w ofni
A ddaw o wendid ffydd."

Y mae mwy o angen am Eglwys Dduw heddiw, a honno'n eglwys ffyddiog, nac erioed o'r blaen. Y mae angen am ysbrydoliaeth ar feddyliau dryslyd a chalonnau claf. Ar ddiwedd y flwyddyn hon

yn hanes ein Cymdeithas gadewch i ni aros am funud gan edrych yn ôl a chasglu at ei gilydd y pethau gorau yn yr hen gyfundrefn.

Ie, gadewch i ni gasglu blodeuglwm o gofion mwyaf melys y gorffennol, ac o dan ddylanwad eu perarogl bydded i ni ail-gysegru ein hunain i'r gwaith o'r newydd gan geisio cynllunio ffordd well ar gyfer y dyfodol. Canys ni fyddwn byw ar y *gorffennol yn unig.* Ymlaen yr awn fel y dywed yr Apostol Paul, "Gan anghofio y pethau sydd tu cefn ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen." Os ydym am gyflawni ein gwaith fel Undodiaid Cristnogol ac os ydym am fod yn deilwng o'r gorffennol, efallai y bydd rhaid i ni newid ein dulliau o fynd ati. Rhaid i ni fod yn *ystwythach* ac yn lletach ein dychymyg a mwy *anturiaethus* gan gadw ar yr un pryd yr ysbryd defosiynol a pharchus.

Nid "Gwrth-Drindodiaeth" yn unig yw Undodiaeth, ond ymgais am gael Undod Ysbrydol i'r holl fyd a gwell fydd diwinyddiaeth anghyson nac awyrgylch sydd yn ddiffygiol mewn ysbryd addolgar. Cofier mai gwaith mwyaf pwysig yr eglwys o hyd yw *achub eneidiau* a sylweddoli gorchymynion yr Iesu, yr hwn a ddywedodd : ' Myfi a ddeuthum fel y caent fywyd ac y caent ef yn helaethach.'

Dywedodd y Parch. Lovell Cooks, Prifathro Coleg yr Annibynwyr, Bryste y dydd o'r blaen : "Many of our Churches are in bondage to their own past. They command great loyalty and much devoted service, but these are given—not to the living Christ—but to old memories that gather round a church that died long ago. Lavender and old lace will never summon these to the task of evangelising. We are still the victims of a middle class ideology—' Our sort of people.' It's good nineteenth century congregationalism alright, but it won't do today."

Gwelais *Wayside Pulpit* tu faes i gapel ac arno yn ysgrifenedig : "I bawb sydd yn *ymdrechu* ac yn newynnu am *nerth, blinderog* ac yn newynnu am *wroldeb, unig* ac yn newynnu am *gyfaillgarwch,* mae'r eglwys hon yn estyn *croeso cynnes.*" Hoffwn weld rhywbeth o'r fath tu faes a thufewn i bob un o'n capeli ni. O un peth yr wyf yn sicr, a hynny yw y bydd angen am eglwysi rhydd fel ein eglwysi ni yn y dyfodol, doed a ddel. Yr ydys yn cwyno yn aml fod rhif ein aelodau ni yn lleihau ; ond nid anghofiwn fod llawer tu faes yn cofleidio yr un syniadau â ni. Oes mae yna eisiau crefydd syml rhydd o hyd. Pan ofynnwyd i Archesgob Caerefrog yn ddiweddar paham yr oedd nifer aelodau wedi lleihau, dywedodd : "It is due to (1) Shortage of Clergy. We must have more and they must be educated Clergy ; (2) People think that modern scientific views have disproved Christianity." Credwn yn y cyntaf ond nid yn yr ail.

Yr oedd dyn enwog yn proffwydo rhywbeth fel hyn y dydd o'r blaen : "I prophesy a *new deal* between church and state in England soon. If that happened, the individual church which was free

and independent would be sorely needed." Wel beth amdani? Yn y cyfamser, onid da o beth fyddai paratoi a manteisio ar y cyfle? Gadewch i ni gydweithio er mwyn cryfhau a lledaenu gwaith ein eglwysi bach ni o dan arweiniad Duw a thrwy ei ras ef. Gan ofyn ym mha ffyrdd y gellir gwneud hynny, mentraf awgymu rhai ohonynt.

(1) Trwy gael mwy a gwell cyd-weithrediad rhwng gweinidogion a lleygwyr a lleyg-wragedd.

(2) Trwy edrych ar y Radio, nid fel gelyn ond fel cyfaill. Paham na allwn gael *cylch gwrando* ambell waith a hynny o dan arweiniad ein gweinidog? Trefner ef yn ystod yr wythnos neu ar y Sul, a hynny heb fod yr un amser â'r gwasanaeth.

(3) Trwy gadw *Cwrdd Gweddi* a dosbarth Beiblaidd yn ystod yr wythnos a dysgu gweddïo yn gyhoeddus fel y gallom gynnal gwasanaeth os bydd angen.

(4) Trwy roi mwy o bwys ar y sacramentau—Bedydd, Swper yr Arglwydd a Phriodas.

(5) Trwy roi mwy o waith a chyfrifoldeb i'r ieuenctid; gadewch iddynt gymryd rhan mewn (*a*) Cwrdd i fobl ifanc; (*b*) Côr o fobl ifanc ar y Sul; (*c*) mwy o gyd-weithrediad rhwng yr ysgol Sul a'r Capel fel y delo'r plant bach i deimlo'n gartrefol yn y Capel.

(6) Trwy gorffori emynau Cymraeg at wasanaethau arbennig, fel bedydd a phriodas yn ein llyfr emynau nesaf. Nid oes un emyn neilltuol ynddo yn awr. Credaf mai da o beth fyddai i rieni ifanc ddarllen emynau bedydd yn nhawelwch eu cartref ambell waith, i'w hatgofio am eu cyfrifoldeb i'w plant. Felly hefyd gydag emynau priodasol. Pwy a ŵyr na fedrau atgofion melys fel y rhain ddwyn i gof addewidion cysegredig a wnaethpwyd ar ddydd priodas?

(7) Ac yn olaf a phwysicach na dim arall gadewch i ni ddyfnhau ein bywyd ysbrydol yn unigol drwy *weddi ddistaw*. Gweddïwn am Heddwch, am synnwyr cyffredin, am ysbryd maddeugar, am nerth i wasanaethu ein eglwys a'n cymdogaeth, am gariad tuag at ein gilydd, am gariad tuag at bethau syml bywyd, am fendith ar ein ysgolion a'n colegau, ein gweinidogion a'n athrawon, ein cartrefi ac am nerth i fod yn weision da a ffyddlon yng nghanol ein breiniau di-rif. Gweddïwn am nerth i chwerthin neu ysbryd hynaws a all wasgaru pob meddwl niweidiol.

"Ni fethodd gweddi daer erioed a chyrraedd Iôr y Nef." Yng ngeiriau Dewi Sant, "Byddwch Lawen, cedwch y Ffydd a gwnewch y pethau bychain."

"Na ddywed, 'Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn,' canys nid o ddoethineb yr wyt yn ymofyn am y pethau hyn."

Rhai o atgofion am y diweddar Barch. E. O. Jenkins.

Gan Sam Davies, Birmingham.

Fis yn ôl a minnau yn talu ymweliad a'm hen gartref yn Sir Gâr fe'm tristhawyd yn fawr o glywed am farw ein cyfaill annwyl a chariadus. Ni allaf lunio cofiant teilwng ohono, ond cynigiaf er hynny dalu fy nheyrnged syml iddo.

Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf ymwelais yn gyson a hen ardal Capel Panteg, ac a'm cartref yno. Fel yr â'r blynyddoedd rhagddynt y mae fy niddordeb ym Mhanteg fel petai ar gynnydd, a daeth y diddordeb hwn a mi i gysylltiad agos a Mr. Jenkins. Lawer tro fe'm derbyniwyd i'w lyfrgell a thestun y siarad bron heb eithriad oedd Panteg a'r Ymofynnydd. Dangosodd i mi yr hen gyfrolau a rwymodd ar ei draul ei hun mor ofalus, a'r rheiny yn mynd nôl dros gyfnod o gan mlynedd. Trwy gyfrwng y mynegai a luniodd ynglŷn â hanes pob eglwys yn Yr Ymofynnydd gallwn olrhain hanes fy hen gapel yn llawn. Yr oedd y modd y gofalai Mr. Jenkins am gofnodion Undodaidd yn ei lyfrgell yn dangos ei barch i Undodiaeth a'i ffydd yn ei dyfodol. Edrychwn ymlaen yn awyddus tuag at ymweliad â Llwynmarles oherwydd byddai'r croeso'n sicr a'r gwmnïaeth yn felys. Wedi gorffen a'r cwrdd yn y Llyfrgell ni pheidiai byth a chynnig pryd o fwyd a'i air olaf oedd, "Peidiwch anghofio galw'r flwyddyn nesaf eto." Ni bydd blwyddyn nesaf ragor. Ond da gennyf fedru bod yn bresennol yn ei angladd ac yr oedd gweld y gynulleidfa fawr yn cryfhau fy ffydd yn y ffaith na fydd marw dim da—ffarwelio am dro yn unig yw hi.

Bydd ei golli yn golled gyffredinol eithr pwy all sylweddoli'r golled i Lwynrhydowen a Bwlchyfadfa. Fodd bynnag, carwn atgofio darllenwyr Yr Ymofynnydd fod ei farw yn golled drom i Banteg, lle pregethai'n achlysurol i gynulleidfaoedd da. Llwyddodd ei ymdrechion i gadw'r drws yn gil-agored, ond ni wn beth a ddigwydd yn awr.

Y mae angen atgyweirio ar furiau'r hen adeilad, ac y mae angen mwy am arweinydd ysbrydol. Gawn ni obeithio y daw rhyw ddyn ifanc yn y dyfodol agos i ail ddechrau'r gwaith o'r newydd. Y mae yma gyfle bendigedig oblegid y mae dylanwad trwm yr hen saint eto'n fyw yn yr ardal.

Llanrwst—A'r llinyn mesur.

Gan Eirian Davies.

Erbyn hyn mae Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst wedi chwalu pob chwiw yn erbyn Cymreigeiddio'r ŵyl. Aethai'n ffasiwn yn ystod y misoedd diwethaf i ryw grachach o Saeson a Chymry hanner-pan gadw sŵn am fod ein cenedl yn hawlio gweithredu ei gŵyl yn gyfan drwy'r Gymraeg. Gwthiwyd y ddadl gerbron golygon y genedl—tegan o ddadl a gwacter ei bol wedi ei stwffio â hen rifynnau o'r *Western Mail*. Gallwn ddweud bellach wrth bawb sy'n eilio dadleuon y coluddion celwyddog mai Eisteddfod Llanrwst yw un o'r rhai hapusaf a fu ers llawer blwyddyn. Dyma'r union fath o Eisteddfod, ac yn wir yr unig fath, sy'n werth i Gymru ymdrechu a chwysu er mwyn ei chadw.

Cymraeg oedd iaith yr ŵyl, a chwbl Gymreigaidd yr awyrgylch. 'Roedd y maes, ei bebyll a'i bobl, ei acenion a'i fryncynnau, yn ddarn o ddelfryd. Ac o ran ei brysurdeb, fel cwch gwenyn rhamantus wedi cael wythnos o hawl i fela ym mhethau gorau Cymru. Er i'r glaw rwystro tipyn ar y diwydrwydd rai dyddiau, ar y cyfan caed digon o heulwen i wneud y dyddiau yn rhai braf ymhob ystyr. A thrwy drugaredd ni fu'n rhaid i gynffon yr Orsedd droi ymdaith yn fordaith a hwylio i gyfeiriad y Maen Llog ar arch Cynan. Ond gwell peidio gwneud gormod o hwyl o'r creaduriaid ; mae Cynan a'i griw wedi tynnu digon o ddilyw ar eu pen eisoes.

Beth bynnag yw ein barn am rwysg a rhodres eu seremoniaeth hwy, a hyd yn oed os credwn fod y Cynaneaid mewn gwlad ddieithr, eto i gyd rhaid cydnabod y byddai'r Coroni a'r Cadeirio yn go ddiliw onibai am yr Orsedd. Wedi gweld mor llipa y gwnaed y gwaith o gyflwyno'r ddwy Fedal Ryddiaith dydd Mercher gallai dyn werthfawrogi'n aruthrol harddwch seremoniau dydd Mawrth a dydd Iau.

Galwyd y Parch. Islwyn Ffowc Elis a'r Parch. Ifor Parry i'r llwyfan yn union wedi croesawu'r Cymry ar Wasgar. Ac fe ddaethant i fyny, fel dau Gymro bach arall ar wasgar, y naill o'i sedd ar ganol y llawr a'r llall o'i encil yng nghefn y llwyfan. Rhoes W. J. Gruffydd y rhubanau glas a'r pendilau aur am eu gyddfau mor ddi-daro a phetai'n rhoi cortyn am yddfau dau gwrcyn i'w crogi. A chymeraf yn ganiataol mai eu crogi a gafodd y ddau ŵr parchedig hyn ar y llwyfan ddydd Mawrth, oherwydd ni ddaeth digon o gymeradwyaeth oddi wrth y dorf i'w boddi. Onid oedd gennym hawl i ddisgwyl gwell sglein ar waith mor bwysig ag estyn y fedal—gwobr y bu amryw o garwyr Rhyddiaith yn ymladd i'w gosod ar yr un tir â'r Gadair a'r Goron ? Rhaid beio pwy bynnag

a fu'n gyfrifol am ymddiried y gwaith i ddwylo mor lliprynnaidd.

Ar y cyfan, a meddwl am hynny, mae gwaed yr Eisteddfod wedi mynd i guro'n ddof yn y Babell Fawr—o'i chymhrau â'r pebyll llai sy'n glwstwr amdani. Lle bo cynulliadau dethol wedi ymgynghennu oddi wrth foncyff y dyrfa fawr, yno y digwydd y pethau cofiadwy gan amlaf. Yno y bydd gwaed yr hen ŵyl yn cyflymu ac yn cynhesu fwyaf. Yn un o "bebyll y cyfarfod" neu mewn neuadd gyfyng, ar yr awr gwbl annisgwyl, bydd yr Eisteddfod yn taro'i deuddeg am y dydd.

Pwy, o niferoedd y rhai a fu yno, pwy a fedr anghofio ar hast y prynhawn Mercher hyfryd hwnnw a gawsom yn ffwrn uffernol Neuadd yr Eglwys? (Clywsom fod iechyd newydd wedi dod i'r neuadd honno ddeuddydd yn ddiweddarach wrth i feddyg o Abertawe ei gysylltu ei hun â'r ffenestr drwy gyfrwng y panel). Ond y prynhawn hwn cafwyd gwledd o gystadlu. Meic Parry wedi anghofio'i barch ac yn arwain fel petai ar lwyfan cwrdd cystadleuol cefn-gwlad. Hwyl dda ar ganu ac adrodd gyda'r delyn, traethu yn null y cyfarwydd, dawnsio a meimio.

Wedyn dyna gwrdd Cymdeithas y Cymmrodorion yng nghapel Horeb pan roddwyd bathodyn y Gymdeithas i T. H. Parry-Williams a Saunders Lewis. Cyflwynwyd y naill yn rymus odiaeth gan Tom Parry, a'r llall braidd yn lastwraidd gan Syr Ben Bowen Thomas. Pwy all anghofio dwyster eneidiol T. H. Parry-Williams yn ei anerchiad, neu ddireidi hirben a herfeiddiol Saunders Lewis pan droes yntau bulpud eglwys yn focs sebon i sôn am Genedlaetholdeb a Chatholigiaeth? Tenau iawn y bydd dyn, yn ystod ei oes, yn cael cyfle i fod mewn cyfarfod mor arbennig â hwn.

'Roedd y Babell Lên bob amser yn babell lawn—mwy na heb, yn orlawn. Yno y gwnaeth y Parch. William Morris enw annwyl iddo'i hunan fel tafolwr tafodrydd Ymryson y Beirdd. Ei ddawn ddoniol ef oedd un o ddarganfyddiadau gorau'r wythnos. Ac un o bethau bywiocaf yr Ymryson oedd gwaith y Parch. Ithel Williams, Pentir yn ateb y llinell gyntaf â'r ail yn y cwpled hwn :

> Nid mwyn yw newid mynych,
> Nid yw wagen Wesle'n wych !

Rhaid senglu i sylw hefyd feirniadaeth Rolant o Fôn ar yr awdlau amser te dydd Iau. Ac yn Seiat y Llenorion, fore dydd Gwener, cyflawnwyd camp brin yn agoriad Kate Roberts ar "Ddirywiad yr Iaith Lafar." Gyda llaw, gem o gyfraniad oedd hwnnw a roed o'r llawr adeg y drafodaeth ; rhywun yn sôn am hogyn o Sir Ddinbych yn casglu arian llefrith oddi wrth wraig galed ei thâl ac yn gorfod edliw iddi : "Mi wneuthoch chi roi digon gormod rhy fychan imi'r wythnos dwetha, ond mi rydach chi wedi rhoi mwy llai imi'r wythnos hon."

Yn wir, pabell fach y pethau mawr oedd y Babell Lên eleni—un a'i llwyth yn fwy na'i lle. Newydd amheuthun yw hwnnw a ddywed fod Aberystwyth eisoes wedi addo teilyngach pabell i'r llenorion yn Eisteddfod 1952.

Gair byr am ddramâu Llanrwst. I'r neb na welsai "Llewelyn Fawr" ac "Eisteddfod Bodran" dyna ddwy wledd. 'Roedd dramâu nos Lun a nos Fawrth yn iawn ; ond isel oedd safon pethau nos Fercher a nos Iau. Nid oedd Eic Davies yn deilwng ohono'i hunan fel awdur yn ei ddwy ddrama un-act "Y Cam Gwag" ac "Ewch Ati." Ac nid oedd drama hir J. D. Miller, "Simon o Cyrene," na'r actio ynddi, yn deilwng o safon llwyfan y Genedlaethol. Gresyn na fai Miller wedi credu yr hyn a ddywedodd Mary Lewis, Dyfnallt a D. T. Davies am ei ddrama yn nwy o feirniadaethau Dolgellau. Yr un modd parthed yr hyn a ddywedodd Leyshon Williams mewn beirniadaeth yn Aberpennar.

I gloi carwn nodi rhywbeth anodd ei ddeall ynglŷn ag un o'r cystadlaethau canu yn Llanrwst. Pob clod i'r awdurdodau am gadw Saesneg o'r llwyfan, ond pam yn y byd gofyn i ddau o'r cystadleuwyr am wobr goffa David Ellis ganu mewn iaith ddieithr arall—Lladin ? Mae'n sicr na ddeallai'r dorf yr iaith honno, ac ofnaf nas deallodd y cantorion yn hollol ychwaith. Caed canu geiriau di-liw heb gyfleu fawr ddim o'u hystyr a'u hysbryd. Ac os bydd gofyn i gantorion boeri'r iaith hon eto o lwyfan un o Eisteddfodau'r dyfodol, odid na wireddir yno eiriau R. Williams-Parry :

> Ni bydd eu Lladin, ar fy llw
> Na llon na lleddf,—'.Tw-whit, tw-hw ,"

[Gweithredodd y Parch. J. Eirian Davies fel gohebydd arbennig i'r Ymofynnydd a diolchwn iddo am ei ysgrif bryfoclyd a'i gamp yn ennill cystadleuaeth Ymryson y Beirdd.—*Gol.*].

Arholiad yr Ysgol Sul 1951.

Cafwyd gwell gwaith o lawer eleni ac yr oedd gwaith syndod o dda gan y goreuon, a'u ysgrifau yn werth eu darllen. Mae mwy wedi eistedd yr arholiad, a diolch i'r athrawon am hyn. Cawsom foddhad mawr ein dau yn y gwaith llafar hefyd.

D. Lewis.
W. D. Jones.

Safon I (ar lafar).
Cribyn. Margaret Jones, Daff Thomas, Meuryn Thomas.

Capelygroes. Emlyn Davies, Glenda Jenkins, Nella Jones, Carol Evans, Bryan Jones, Dilwyn Thomas.
Brondeifi. John Williams, Jeffrey Jones, Ann Williams.
Caeronnen. Evelyn Jones.
Llwynrhydowen. Bryan Evans, David Jones, Richard Jones, Ann Jones, Jessie Jones.
Bwlchyfadfa. Tommy Thomas.
Pantydefaid. Marian Davies, Nannie Davies, Eirwyn Evans, Eileen Evans.
Capel y Graig. Lyndell Davies, John Davies, Gill Davies, Gaynor Davies, Sally Davies.

Safon II (ar lafar).
Capel y Graig. Phyllis Davies.
Pantydefaid. Ronnie Davies, Nanna Evans.
Llwynrhydowen. Tommy Jones.
Bwlchyfadfa. Roy Evans.
Cribyn. Olwen Jenkins, Betty Davies.
Capelygroes. Wyn Rees.
Alltyblaca. Lina Evans, Betty Williams, Pauline Williams, John Bundock.
Brondeifi. John Wynford Jones.

(Ysgrifenedig). Gwobrau.
Jean Davies (*Cribyn*) ; Ann Gaynor Jonathan (*Ciliau*) ; Llinos Lloyd (*Ciliau*) ; Mary Griffiths (*Brondeifi*) ; Gwendoline Jones (*Alltyblaca*) ; Edward Griffiths (*Capelybryn*).

Tystysgrifau.
Elsa Thomas (*Caeronnen*) ; Olwen Davies (*Caeronnen*) ; Betty Evans (*Bwlchyfadfa*) ; Audrey Charey (*Capel y Bryn*) ; Nel Davies (*Capel y Bryn*) ; Sally Jones (*Cribyn*) ; Christina Hughes (*Rhydygwin*) ; John Walters (*Alltyblaca*).

Safon III (Ysgrifenedig). Gwobrau.
Mary Thomas (*Graig, Llandysul*) ; M. Olwen Thomas (*Graig, Llandysul*) ; Hilary Jonathan (*Ciliau*) ; James Lynn Davies (*Capelygroes*) ; Margaret Evans (*Graig, Llandysul*) ; Alan Jones (*Brondeifi*).

Tystysgrifau.
Gwenda Morgan (*Brondeifi*) ; Vernon Jones (*Brondeifi*) ; Lilian Rees (*Allytblaca*) ; Derrick Jones (*Alltyblaca*) ; Ronnie Davies (*Capelygroes*) ; Thomas David Jones (*Graig, Llandysul*) ; Eilir Evans (*Graig, Llandysul*) ; Lynn Evans (*Graig, Llandysul*) ; Tom Evans (*Capel y Bryn*) ; Eric Jones (*Capel y Bryn*) ; Betty Morgan (*Capel y Bryn*).

Y Cwpwrth Llyfrau.

Gan y Golygydd.

Eples. Cyfrol o farddoniaeth gan Gwenallt ; cyhoeddir gan Wasg Aberystwyth, 74 tud., pris 5s.

Gwaith anodd yw adolygu gwaith gŵr y mae arnaf gymaint o ddyled iddo, oblegid un ydwyf o'r "... genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o fyfyrwyr yn dyfod ac yn cilio, fel llanw a thrai yng Ngholeg y Lli." Ond ni ddaeth yr un ohonom na chilio o ddosbarth Gwenallt heb fod yn gyfoethocach o'r herwydd. O dipyn i beth deuem i'w adnabod, y gŵr bach o dafod ffraeth a gerddai yn ôl ac ymlaen o flaen ei ddosbarth gan droi ei fodrwy a thrin ei destun ar yr un pryd. Carai'r myfyrwyr feddwl amdano fel tipyn o ' dderyn ' a charai yntau yn ei dro ymddangos i ninnau yn y dull hwnnw gan gellwair weithiau a gwisgo crys amryliw dro arall. Ond ffug oedd y cyfan a phaham y ffugio ni wn, ni ddeallais hyd y dydd heddiw. Efallai mai dyma'r unig ffordd i ysgafnhau ychydig ar y baich trwm a bwysai ar un o eneidiau mwyaf dwys a sensitif ein hoes. Oblegid o'i adnabod yn iawn, gŵr difrifol i'r eithaf yw Gwenallt, crefyddwr a roes bwys ei ben ar garreg galed fel Jacob gynt, a deffro i ddringo'r ysgol. Ac yntau'n ŵr ifanc profodd chwerwder caethiwed carchar, a gwrthryfelodd yn erbyn gormes ei ddydd. Ond yn y pair hwnnw lluniwyd bardd mwyaf ein cyfnod, ac un o'r Cristnogion cywiraf. Ac am iddo fod yn eithaf y dioddef, ac efallai ar ymylon anghred eithaf, y mae'n rhaid i ni faddau iddo am ei ffydd eithafol—oblegid dyna yw neges ei gyfrol olaf hon. I arbed chwilio geiriadur, *lefain* yw Eples, ac nid oes odid gerdd yn ei lyfr nad yw'n llawn dop o'r lefain hwnnw y myn ef wthio i does di-siâp ein dyddiau.

Wedi darllen *Ysgubau'r Awen*, ei gyfrol gynharach, y mae dyn yn dod yn barod i'r gyfrol hon, honno yw'r llwybr megis, y bwyd llwy a dyma'r bwyd llawn. Nid yw'n anodd, yn wir y mae ei gerddi yn hynod eglur o'u cymharu â llawer o gynnyrch beirdd heddiw, ond gall fod yn ddieithr i'r sawl na ymdrafferthodd i bori ym meysydd llenyddiaeth ddiweddar Cymru. Beth allai fod yn eglurach na'i gerdd i'r ' Meirwon ' :

> "Wrth yrru ar feisiglau wedi eu lladrata o'r sgrap
> A chwarae Rygbi dros Gymru â phledrenni moch,
> Ni freuddwydiais y cawn glywed am ddau o'r cyfoedion hyn
> Yn chwydu eu hysgyfaint i fwced yn fudr goch."

Gall y gwleidydd modern weiddi ei wyneb yn goch yn erbyn y drefn ddiwydiannol ddieflig sy'n llabyddio dynion er mwyn elw, ond y mae darllen y pennill yma yn ein taro fel cael bonclust gan gyfaill. A phwy all beidio gwrido wrth ddarllen yn nes ymlaen,

"Gwragedd dewrfud â llond dwrn o arian y gwaed,
A bwcedaid o angau yn atgo tan ddiwedd oes,
Yn cario glo, torri coed tân a dodi'r ardd
Ac yn darllen yn amlach hanes dioddefaint y Groes."

Y mae rhai ohonom a fu'n ochri'n hir gyda Chrwys a'i ' Forder Bach ' a'i ' Gloch y Llan ' gan ddweud, ' dyma beth yw barddoniaeth.' Ond erbyn hyn gwyddom ym mha le mae'r neges fawr a phwy sy'n plymio i ddyfnderoedd ein pethau. Dau fardd o'r un fro yw Crwys a Gwenallt—gwelodd un y Border Bach,' gwelodd y llall ' y llewpart diwydiannol a naid yn sydyn slei.' Wedi darllen Crwys y mae dyn yn chwilio am ei hances boced, wedi darllen Gwenallt y mae dyn yn chwilio am ei ffydd.

Ond nid dyna'r unig fyd y gŵyr Gwenallt amdano—byd diwydiant cylch-oedd Alltwen a Phontardawe. Y mae'n ymglywed â'r byd o'r lle hannoedd ei deulu, byd amaethyddol bro Rhydcymerau—byd ac iddo gysgod Byd Arall yn drwm drosto.

"Rhaid rhoddi yn ôl i'r ddaear onest
Am a gawsom o'i dwylo cyfiawn hi ;
Maddau i ni am sarnu Dy greadigaeth ;
Maddau ein materoldeb a'n hunanoldeb ni."

Ac un o gerddi gorau'r gyfrol i mi yw ' Rhydcymerau ' lle ceir disgrifiad o'r hen gymdeithas a ffynnai yno, ac yna i gloi,

"Ac erbyn hyn nid oes yno ond coed,
A'u gwreiddiau haerllug yn sugno'r hen bridd :
Coed lle y bu cymdogaeth,
Fforest lle bu ffermydd,
Bratiaith Saeson y De lle bu barddoni a diwinydda,
Cyfarth cadnoid lle bu cri plant ac ŵyn.
. . . Ac ar golfenni, fel ar groesau,
Ysgerbydau beirdd, blaenoriaid, gweinidogion ac athrawon Ysgol Sul
Yn gwynnu yn yr haul
Ac yn cael eu golchi gan y glaw a'u sychu gan y gwynt."

Y mae yma gerddi eraill y carwn ddyfynu ohonynt, ac ymhlith y rhai hynny y mae nifer o gerddi coffa a dau englyn i Dafydd Lewis, Gomerian. Credaf fod ei gywydd i T. Gwynn Jones yn rhy faith o lawer, a chofier fy mod yn beirniadu'r bardd wrth y safonau y clywsom amdanynt yn ei ddosbarth. Y mae'r cerddi a luniodd wedi teithio drwy'r Almaen yn gafael gyda'r un sicrwydd â cherddi Cwmtawe ond efallai mai'r gerdd a hoffaf orau yw honno i'r ' Pensaer ' sy'n dechrau a gorffen gyda'r ddau bennill yma,

"Dysgodd yr Iesu ei grefft fel pob llanc
Tlawd a chyfoethog yn ei wlad ;
Arferai drin coed a cherrig a chlai,
A dysgu cynlluniau a mesurau tai
Yng ngweithdy ei dad.

. . . . . .

Nid oes ar faen na phren ar bren
O'r holl dai a gododd i gyd,
Ond fe erys adeiladwaith Ei Eglwys gain,
A gododd gyda deuddeg o seiri coed a main
Tan ddiwedd y byd."

Nid oes angen dweud ei bod yn gyfrol hardd a bod ôl dwylo cywrain gweithwyr Gwasg Gomer yn rhoi urddas arni. Prynwch yn ddi-ymdroi cyn elo allan o brint.

BWRIADWN adolygu'r *Genhinen* a'r *Crynhoad* a *Chyfansoddiadau'r Eisteddfod* yn weddol helaeth, ond fe aeth fy llith cyntaf yn rhy hir. Y mae'r *Genhinen* mor flasus ac erioed ond ofnaf y bydd rhaid i'r Golygyddion ostwng ychydig ar eu safon a gwneud y cawl ychydig yn deneuach os yw i ennill ei hen safle. Tueddu at fod yn drymaidd yw'r rhifyn olaf er gwaethaf digrifwch anfarwol un o ' fois y Cilie ' yn ei gywydd i'r trip. Y mae'r *Crynhoad* wedi ymsefydlu bellach yn ein plith a'r golygydd prysur a dawnus yn rhoi i ni arlwy gyson gyda thestun at bob blas. Pe gallwn, carwn godi erthygl Islwyn Ffowc Ellis, un o weinidogion ifanc, bywiog y Methodistiaid ar "Hen Gorff ynteu Newydd". Meddai heb flewyn ar ei dafod, "Gwir y mae gan y Corff ei Gyffes Ffydd, ond lleiafrif, mi gredaf i, yw'r gweinidogion sy'n ei chymryd o ddifri, chwaethach ei chredu i gyd." Dyna damaid i godi blys. Am *Gyfansoddiadau Eisteddfod Llanrwst*, dyma un o wleddoedd y flwyddyn i'r neb a ymddiddoro yn llên ei wlad. Gellir pori am ddyddiau yn y beirniadaethau a rhyfeddu am oes uwchben swm y gweithgarwch llenyddol sy'n cyniwair o flwyddyn i flwyddyn ym mhlith gwerin ein gwlad. Clywsoch eisoes ddigon am yr awdl a'r bryddest, ac unig bwrpas hyn o adolygiad fydd galw eich sylw at y gyfres o Benillion Gwreiddiol yn null yr hen benillion gan T. Llew Jones, ysgolfeistr newydd Tregroes. O'u darllen gwelir cerddediad sicr artist o'r radd flaenaf. Llawenhawn o weld ei sefydlu yn un o ardaloedd YR YMOFYNNYDD. Clywch arno,

"Pam y rhoddi'r cregyn gwynion
Wrth dy glust fy ngeneth dirion ?
Dal fy nghalon yn dy ddwylo,
Dwysach yw cyfrinach honno.

Fe'th ddwg llong ymhell ar fordaith,
Fe'th ddwg march ar siwrne hirfaith ;
Ond o bob rhyw daith ar ddaear
Pellaf taith ar ysgwydd pedwar.

Dyna ddigon am y tro !

Newyddion yr Enwad.

YMWELIAD LLYWYDD Y GYMDEITHAS GYFFREDINOL.—Ymwelodd y Llywydd, y Parch. Randall Jones, â'r Gymdeithas Undodaidd Gymraeg yn Sir Aberteifi ac fe arosodd yn ein plith am dros wythnos. Ar Sul, Awst 19, pregethodd mewn dau ganolfan, Capel-y-Groes a Llwynrhydowen i gynulleidfaoedd lluosog. Amlygodd Mr. Jones ei hun fel meddyliwr clir a dwfn, ac yr oedd y bregeth a glywsom yn y Llwyn yn un o'r esboniadau gorau posibl ar y ffydd Undodaidd fel datblygiad rhesymol o'r gred yng ngweithrediadau'r Ysbryd Glân. Clywsom ar y diwedd y bydd yn bosibl i ni ddarllen yr araith mewn rhifyn o'r *Hibbert Journal* maes o law.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Rhown yma grynodeb byr o weithrediadau'r Cyrddau Blynyddol a gynhaliwyd yn y Llwyn ar y dydd olaf o Orffennaf a'r dydd cyntaf o Awst. Efallai y cawn adroddiad swyddogol yn nes ymlaen. Ar y nos Fawrth pregethwyd gan y Parchn. Noel James a J. Marles Thomas a'r lle bron a bod yn llawn. Bore trannoeth cynhaliwyd y Pwyllgor, ac er bod llawer o'r trafodion yn rhedeg o un cwrdd i'r llall ers blynyddoedd yn awr, cafwyd cwrdd bywiog a buddiol. Clywsom fod sefyllfa'r myfyrwyr yn gwella a bod gennym dri bellach ar y maes. Cafwyd adroddiad calonogol iawn am waith y ddau sydd eisoes yn y coleg. Cipiodd Elwyn Davies nifer o wobrau a deallwyd fod Basil Hopkin wedi gwneud gwaith ardderchog gan basio y ddau destun y cynigiodd arnynt yn arholiad y Brifysgol am Dystysgrif mewn diwinyddiaeth. Y mae'r ddau a'u llygaid ar y Brifysgol. Gobeithiwn weld Watkin Davies, y newyddian yn dringo'r ysgol yn yr un modd. Cafwyd cryn drafodaeth ar ddyfodol Yr Ymofynnydd wedi deall y byddai posiblrwydd o weld colli tua £60 oherwydd codiad sydyn mewn prisiau papur a chyflogau'r gweithwyr. O gofio fod £18 o elw o werthu'r Ymofynnydd llynedd gwelir yn eglur ddifrifoldeb y sefyllfa. Eglurodd y Golygydd fod yr argraffwyr wedi bod yn gweithio'n rhyfeddol o rad am flynyddoedd a bod y codiad hwn yn beth a oedd yn rhaid ei wynebu rywbryd. Ni ddaethpwyd i unrhyw benderfyniad ond gwn y bydd yr eglwysi a'u swyddogion yn sicr o wneud ei gorau i gwrdd â'r golled a gobeithio y bydd rhai o'n cyfoethogion yn cofio am yr hen bererin yn ei adfyd. Derbyn-

nir pob gwaddol a rhodd yn ddiolchgar gan y Trysorydd. I ddechrau'r gronfa bydd y Golygydd yn caniatau dwy gini o'i gostau am eleni. Deallwyd bod ymddiriedolwyr Capel Penrhiw wedi penderfynu yn swyddogol bellach i gyflwyno'r hen adeilad nodedig hwn i awdurdodau Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Apwyntiwyd pwyllgor bychan i drefnu ynglŷn â unrhyw hawliau y myn yr enwad gadw arno yn ei gartref newydd. Cafwyd trafodaeth hefyd ar bwysigrwydd gwaith ieuenctid yn ein eglwysi, ac ni ellid gorbwysleisio'r angen am ddeffroad yn y mater hwn. Yn y prynhawn cafwyd anerchiad y Llywydd, a gyhoeddir yn y rhifyn yma, ac fe'i dilynwyd gan drafodaeth ar Gomiwnyddiaeth a Chrefydd a'r Parchn. Islwyn Pritchard ac Islan Jones yn agor. Y mae araith Mr. Jones mewn llaw eisoes ac fe gyhoeddir y ddwy yn ein rhifyn nesaf. Clowyd yr ŵyl gyda dwy bregeth yn y nos a'r Parchn. D. Jacob Davies a T. Oswald Williams yn pregethu. Gwelwyd eisiau'r Parch. E. O. Jenkins yn fawr yn ystod y ddeuddydd a gwnaed cyfeiriadau dwys ato yn ystod pob un o'r cyfarfodydd. Cymerth y Parchn. S. E. Bowen a Lewis Williams at y gwaith o lywyddu.

YR YMOFYNNYDD COFFA i E. O. JENKINS.—Yn ystod y Cwrdd Coffa a'r Cyfarfodydd Sefydlu yn y Graig gwerthwyd dros ddau gant o'r rhifyn hwn gan y Golygydd a'r myfyrwyr. Y mae rhai copïau o hyd ar gael yn Siop Pontshaen, Gwalia, Talgarreg a Gwasg Gomer, Llandysul. Dengys y gwerthiant hwn beth ellid ei wneud ym mhob ardal pe bai gennym rywrai i roddi ein pobl ifanc ar waith.

CYRDDAU SEFYDLU'R PARCH. J. MARLES THOMAS.—Bendithiwyd y cyfarfodydd yma â thywydd ardderchog a daeth cyfeillion o bell ac agos at ei gilydd i ddymuno'n dda i weinidog newydd Graig a Phantydefaid. Teimlwyd balchder cyffredinol drwy'r Sir o weld un o'i phlant disglair yn dychwelyd. Yr oedd capel mawr Pantydefaid yn orlawn ar nos Fawrth, Awst 14eg, a gweinidogion a phobl o bob enwad a chred wedi dod yno i weld dechrau'r daith. Siaradwyd gan yr Henadur Josiah Jones ; y Parch. D. A. Williams, Carmel ; D. G. E. Davies, Faerdrefach ; J. C. Jones, Graig ; D. O. Evans, Pontbren ac Edward Davies, Penlonwen. D. Jacob Davies, Aberdâr oedd y llywydd, ac ar ddiwedd yr oedfa traddododd bregeth bwrpasol i'r achlysur. Atebodd y gweinidog gyda geiriau caredig i'r croeso brwd. Trannoeth y prynhawn yn y Graig, y llywydd oedd y Parch. Lewis Williams, ac fe arweiniwyd yn yr addoliad gan y Parch. Coram Davies, Bryste. Wedi anerchiad byr gan y llywydd siaradwyd gan y canlynol : J. C. Jones (Derwydd), T. Bryn Jones (Pantdefaid), Mrs. L. Davies, Faerdre a Mrs. J. O. Davies (Graig) dros Urdd y Benywod a'r Parch. D. Rhydderch dros enwadau'r cylch. Cafwyd anerchiad hefyd gan y Parch. Randall Jones a mynegodd syndod dirfawr o weld cynulleidfa mor fawr. Yn wir yr oedd mwy na'i hanner o'r tu allan yn gwrando trwy gyfrwng Sion Ceg (*Loud Speaker*). Siaradodd y Parch. S. E. Bowen ar ran y Gymdeithas ac ar ran eglwys y Cefn fe gyflwynwyd Mr. Thomas gan Tom Lewis (Mab y Mynydd) a Tom Lewis (Cadeirydd y Gynulleidfa), ill dau yn talu teyrnged uchel i'w waith mawr yn yr hen ardal.

Ar ôl i Mrs. Phyllis Parry (Merthyr), S. R. Butler (o'r Gymdeithas Dde-Ddwyrain) i siarad, atebodd Mr. Thomas, a gorffenwyd y cwrdd gan y Parch. Islan Jones. Dau nodyn amlwg a oedd i'r cwrdd a gellir eu gosod mewn pedwar gair, *Hiraeth Cefn* a *Llawenydd Llandysul*. Cynhaliwyd y cwrdd nos yn Seion, Capel yr Annibynwyr a'r Parchn. J. D. Jones a T. O. Williams yn annerch a siarso. Offrymwyd gweddi a bendith gan y Parch. R. Morris (B), a daeth cyfres a gofir yn hir i ben gyda hyn. Mawr lwyddiant i'r bugail newydd !

LLWYDDIANT YSGOLHEIGAIDD.—Y mae Miss Glenys Rowlands, unig ferch Mr. Hugh Rowlands, Y.H. a Mrs. Rowlands, Ystrad House, Felinfach wedi llwyddo pasio'r arholiad yng Ngholeg Hyfforddi y Barri yn llwyddiannus. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant. Llongyfarchwn hefyd Ceridwen Jones, un o blant y Bwlch ar ei llwyddiant yn yr un Coleg, ac yn arbennig am ei champ gyda'r prawf dysgu plant. Llwyddodd Stuart Morgan o Highland Place i ennill clod yn arholiad Uchaf yr Ysgol Ramadeg a dymunwn bob bendith iddynt oll ac eraill nas enwyd yn y dyfodol.

YR HEN DY CWRDD.—Y mae gobaith am gael darllediad ar hanes yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr cyn hir a phan ddaw'r amser ceir nodyn yn rhoi'r manylion yn Yr Ymofynnydd.

E. O. JENKINS.

DAU BENNILL ER COF

Aeth Jenkins rhwydd-gymwynas
Drwy'r byd yn llawn o urddas,
Dyma batrwm o fywyd crwn—
I'w waith 'roedd hwn yn addas.

Mewn 'sbyty'n teimlo'n wirion
Daeth ataf—enaid tirion,
Fel hen bererin ar ei daith
I'r galon gwnaeth roi moddion.

G.R.D. (Llwyngroes, Tregaron)

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.